**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 40 (TAI-BACH) I GYFFORDD 39 (Y GROES), CASTELL-NEDD PORT TALBOT) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 40 (Tai-bach) a Chyffordd 39 (Y Groes), Castell-nedd Port Talbot.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r llain galed sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd a lôn gyntaf cerbytffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 40 hyd at yr arwydd gantri i'r gorllewin o Gyffordd 39.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 2 Medi 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 20:00 o'r gloch ar 2 Medi 2024 hyd 06:00 o'r gloch ar 31 Ionawr 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 40 (TAI-BACH) TO JUNCTION 39 (GROES), NEATH PORT TALBOT) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway between Junction 40 (Tai-bach) and Junction 39 (Groes), Neath Port Talbot.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the length of the hard shoulder adjacent to the eastbound carriageway of the motorway and lane 1 of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 40 to the gantry sign located to the west of Junction 39.

The Order comes into force on 2 September 2024. The temporary prohibition is expected to operate from 20:00 hours on 2 September 2024 until 06:00 hours on 31 January 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government